# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Hydref 2024

Amser: 09.00 – 09.56

# Remote/ Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Alun Davidson<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau, Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd y gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w gyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.45pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y ddadl fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 15 Hydref 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Ynni a’r economi werdd (45 munud)

**Dydd Mawrth 22 Hydref 2024**

- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Y Strategaeth Addasu Hinsawdd (45 munud)
- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024 (5 munud)

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 16 Tachwedd 2024 -**

- Cynnig i sefydlu'r pwyllgor (5 munud)

**Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a hawliau dinasyddion ar ôl Brexit (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1400: Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)

### 3.4 Gynigion Deddfwriaethol Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Datganodd Heledd Fychan fuddiant ar ôl cyflwyno un o'r cynigion arfaethedig i'w ddethol.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol ar 16 Hydref:

**Heledd Fychan**

**NNDM8687**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gyflwyno rhagdybiaeth mewn prosesau cynllunio yn erbyn cymeradwyo datblygu chwareli yn agos at aneddiadau.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) ei gwneud yn ofynnol i risgiau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth, ac i iechyd y cyhoedd, mewn cysylltiad â safleoedd chwarelyddol arfaethedig gael eu hasesu fel rhan o'r broses gynllunio;

b) gosod parth clustogi gorfodol o 1,000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a'r rhai presennol; ac

c) darparu mai dim ond Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru all wneud y penderfyniad ar gais cynllunio ar gyfer datblygu chwarel, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr ohebiaeth a ddaeth i law ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru), ynghyd â meini prawf penderfynu ar geisiadau am amserlenni cyflym.

Nododd Darren Millar a Heledd Fychan nad oedd y rhesymeg a ddarparwyd gan y Llywodraeth yn bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer amserlen gyflym ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Dywedodd y Trefnydd fod y Llywodraeth wedi cynnig yr hyn yr oedd yn ei deimlo oedd yn briodol, yn hytrach nag amserlen gyflym ar gyfer Cyfnod 1, yng ngoleuni natur dechnegol y Bil ac y byddai gydag amharodrwydd yn gallu cytuno i symud i eisteddiad deg wythnos ar gyfer Cyfnod 1.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid diwygio'r amserlen i ddarparu deuddeg wythnos ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, ac y dylid ystyried y mater yn ymwneud ag a ddylai fod rhagor o hyblygrwydd o ran hyd priodol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar gyfer gwahanol Filiau, fel rhan o'r adolygiad sydd ar y gweill o'r broses ar gyfer Biliau cyhoeddus.

## 4.2 Meini prawf gwneud penderfyniadau ar geisiadau i gyflymu'r amserlenni ar gyfer Biliau'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes y papur a chytunodd y dylai'r pwyllgor newydd arfaethedig gael ei alw'n Bwyllgor Senedd y Dyfodol / Future Senedd Committee.

Cafodd y Pwyllgor Busnes drafodaeth bellach ar union gylch gwaith Pwyllgor Senedd y Dyfodol a chytunodd i ystyried rhai mân newidiadau a chytuno arnynt, y tu allan i'r cyfarfod.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor i'r ysgrifenyddiaeth ac i gynnig yn cynnig sefydlu'r pwyllgor gael ei osod i'w ystyried gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Hydref.

### 4.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip: Amserlen ar gyfer y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

### 4.4 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Amserlen y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

### 5.1 Cynnig cylch gwaith drafft ar gyfer pwyllgor newydd mewn ymateb i Ddiwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd (Cymraeg i ddilyn)

Business Committee considered the paper and agreed that the proposed new committee should be titled the Future Senedd Committee/Pwyllgor Senedd y Dyfodol.

Business Committee had a further discussion of the precise remit for the Future Senedd Committee and agreed to consider and agree some minor changes outside of the meeting.

Business Managers agreed to confirm the membership of the Committee to the secretariat and for a motion proposing the establishment of the committee to be laid for consideration by the Senedd in Plenary on Wednesday 16 October.

## 5.2 Rhannu swydd Cadeirydd Pwyllgor: crynodeb o dystiolaeth cam 1 a datblygu cynigion manwl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cam 1 a chytunodd i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad cam 2 gydag Aelodau o'r Senedd a chyrff eraill.

Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- yr egwyddorion sylfaenol y bydd cynnig manwl y Pwyllgor Busnes ar gyfer ymgynghori arnynt yn seiliedig;
- nifer o faterion pellach y dylid gofyn am farn arnynt drwy’r ymgynghoriad cam 2, gan gynnwys:
    - a ddylid defnyddio'r term 'rhannu rôl' yn hytrach na 'rhannu swydd' yng ngoleuni'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad cam 1;
    - effaith bosibl rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ar gapasiti’r Senedd i graffu;
    - effaith bosibl y ddau Aelod sy'n cymryd rhan ym musnes pwyllgorau ar yr un pryd ar gydbwysedd gwleidyddol y pwyllgor hwnnw; ac
    - a ddylid hefyd ystyried model cadeirydd / dirprwy gadeirydd fel dull amgen posibl.
- ystyried rhestr o gwestiynau wedi’u diweddaru ar gyfer yr ymgynghoriad, drwy e-bost cyn bwrw ymlaen.